Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 13 Medi 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cwestiwn 1** – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd

(b) Cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd

**Sylwadau ategol**

**(a) Ymestyn cyfnod gweithredu CSGA i 10 mlynedd**
Nododd Estyn yn ei adroddiad (Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol Medi 2016) bod y CSGAau yn darparu fframwaith defnyddiol i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd adroddiad Estyn hefyd bod gwendidau yn y modd y caiff llawer o'r cynlluniau eu datblygu a'u rhoi ar waith ar y pryd a bod hyn yn cyfrannu at y cynnydd araf a wneir yn erbyn llawer o'r targedau yn strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Cytuna Estyn â'r argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad Brys o'r CSGAau a wnaed gan Aled Roberts (2017) oedd yn pwysleisio'r angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o ddeddfwriaeth y Llywodraeth er mwyn cryfhau'r flaenoriaeth strategol a roddir i'r CSGAau gan awdurdodau lleol. Byddai adolygu amserlen y CSGAau yn y modd a gynigir yn cyd-fynd â chynlluniau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn enwedig Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Y ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy o fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yw'r Cyfrifiad a gynhelir bob 10 mlynedd. Mae'n rhesymol felly ein bod yn cysoni cyfraniad y byd addysg at strategaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050 â hyn. Ar yr un pryd, dylai awdurdodau lleol sylweddoli bod cynyddu'r cyfnod cynllunio o dair blynedd i ddeng mlynedd yn gosod disgwyliadau arnynt bod eu cynllunio tymor hir ar gyfer addysg Gymraeg yn fwy strategol, rhagweithiol ac uchelgeisiol nag yn y gorffennol.

**(b) Cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd**
Mae'n rhesymol bod y cynlluniau nesaf yn weithredol o 2021 er mwyn sicrhau cysondeb â'r garreg filltir yn 2031 o fewn *Cymraeg 2050:Miliwn o siaradwyr* a bod cynnydd yn cael ei nodi fesul blwyddyn ysgol. Rhydd y flwyddyn ychwanegol hon ragor o amser i awdurdodau hyrwyddo addysg Gymraeg ac ymgynghori ag ystod ehangach o randdeiliaid wrth baratoi eu cynlluniau diwygiedig.

**Cwestiwn 2 –** Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni

(b) disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

(c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol

**Sylwadau ategol**

**(a) Dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniad asesiad o'r galw ymysg rhieni**
Nododd Estyn yn ei adroddiad (Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol Medi 2016) nad oes gan rai awdurdodau ddulliau systematig o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdodau hyn yn tueddu ymateb yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol i gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'n rhaid i ddarpariaeth ddal i fyny â'r galw o ganlyniad. Cytunwn felly nad yw cynnal asesiadau o'r galw ymysg rhieni wedi arwain, ar y cyfan, at welliannau sylweddol yn y modd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n rhesymol disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn dull llawer mwy rhagweithiol. Serch hynny, mae'n hanfodol y dylid ystyried bod hyrwyddo, ymgysylltu ac ymgynghori'n agored â rhieni / gwarcheidwaid yn rhan o'r broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

**(b) Disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg**
Er mwyn cyflawni targedau strategaeth *Cymraeg 2050* (miliwn o siaradwyr yn genedlaethol) mae angen newid cyfeiriad ac ystyried dulliau amgen o gyrraedd y nod uchelgeisiol hwn. Mae cyfraniad y sector addysg er mwyn cyrraedd y targed hwn wedi ei ddeall yn dda. Mae'n rhesymol felly bod awdurdodau lleol yn gosod eu targedau eu hunain dros gyfnod o 10 mlynedd a bod rheini'n rhai uchelgeisiol sydd yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg ar sail yr un targed clir hwnnw.

**(c) Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau LlC wrth bennu targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol**

Derbynnir y gallai gofyn i awdurdodau lleol bennu eu targedau eu hunain arwain at heriau gwahanol. Nodir bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno methodoleg ar gyfer cyfrifo targedau yn y canllawiau statudol sydd yn gydnaws â cherrig milltir *Cymraeg 2050*. Mae'r dull hwn yn cydnabod y cyd-destunau a'r heriau gwahanol sy'n wynebu'r 22 awdurdod lleol. Er mwyn sicrhau bod y drefn hon yn un effeithiol, rhaid i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau fod yn un agored a heriol. Bydd rhaid gweithredu'n llym er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau yn gosod targedau uchelgeisiol gan fonitro cynnydd yn gyson a rheolaidd. Bydd angen bod yn hyblyg yn ogystal wrth ymateb i unrhyw newidiadau lleol a/neu genedlaethol sydd yn rhwym o ddigwydd dros gyfnod o 10 mlynedd.

**Cwestiwn 3** – Hoffem wybod eich barn ar:

(a) y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019?

(b) canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun?

**Sylwadau ategol**

**(a) Y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019?**

Yn gyffredinol, mae Estyn yn croesawu'r diwygiadau a wnaed i'r datganiadau y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu gwneud yn eu CSGAau o hyn allan. Mae'r datganiadau yn cwmpasu rhychwant eang a pherthnasol o gyfrifoldebau. Yn benodol, croesewir y pwyslais ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a'r targed a fydd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun. Er bod cynnydd wedi bod yn **nifer** y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2011/12 a 2017/18, ni fu cynnydd yng **nghyfran** y garfan hon o ddisgyblion yn genedlaethol (tua 23%). Mae Cymraeg 2050 yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu'r gyfran i 30% erbyn 2031 ac yna 40% erbyn 2050.

Serch hynny, cyfeiriad at un targed yn unig sydd yn y rheoliadau arfaethedig – nifer y disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Er yn nodi'r angen am ddatganiadau sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod yn sicrhau bod personau a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu felly, ni ofynnir am dargedau i helpu i yrru'r broses. Fel canlyniad, bydd mesur parhad a dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg yn anodd. Ystyrir bod hyn yn fwlch yn y rheoliadau arfaethedig.

Croesewir hefyd y gofyniad i awdurdodau lleol weithio'n gynyddol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill o ran llunio'r CSGA a monitro sut y caiff ei weithredu. Nododd Estyn yn ei adroddiad (Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol Medi 2016) na chynhelir cyfarfodydd fforymau (addysg cyfrwng Cymraeg) yn ddigon aml a bod rolau a chyfraniadau disgwyliedig rhanddeiliaid yn aneglur. Mae'r

Atodlen hon yn nodi'n glir bwysigrwydd cydweithio â sefydliadau eraill gan gynnwys y fforymau ac awdurdodau lleol a sefydliadau rhanbarthol eraill, er enghraifft y consortia addysg, wrth gynllunio a datblygu eu Cynlluniau ar gyfer 2021-31 fel bod cyfrifoldebau yn glir o'r dechrau.

Byddai'n ddefnyddiol cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol osod targedau mewn perthynas â darpariaeth gwaith ieuenctid a fyddai'n cefnogi'r nod yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru i 'ddatblygu gwell dealltwriaeth o rôl ac argaeledd darpariaeth yn y Gymraeg ar draws Cymru, a datblygu rhaglen waith i gynyddu cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg'.

**(b) Canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun**

Mae Canllawiau y CSGAau yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sydd yn gosod y dasg o ddatblygu y CSGAau newydd mewn cyd-destun clir a pherthnasol. Croesewir y pwyslais clir ar y ddyletswydd sydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yr angen i gynllunio'n rhagweithiol ar sail targedau a'r disgwyl i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill wrth gyfrannu at y flaenoriaeth genedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r canllawiau yn cyfeirio awdurdodau lleol at ystyriaethau cynllunio pwysig ac yn gymorth gwerthfawr iddynt i'w helpu i gynllunio'n strategol gogyfer ag ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol a chanllawiau mewn perthynas â pholisi cludiant i ddysgwyr yr awdurdod.

**Cwestiwn 4** – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad?

(b) y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Cynllun?

**Sylwadau ategol**

**(a) Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad**

Croesewir na fydd rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori ac ail-gyhoeddi eu CSGA er mwyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn flynyddol. Serch hynny, rhaid dadansoddi cynnydd yn flynyddol mewn modd hylaw. Cytunir mai proses barhaus ddylai hyn fod ac nid 'digwyddiad' blynyddol. Dylid gofalu bod yr adroddiad cynnydd blynyddol yn grynodeb cryno o'r cynnydd yn erbyn y targed deng mlynedd a'i fod yn cynrychioli

safbwyntiau yr holl randdeiliaid a gyfrannodd at lunio'r CSGA, yn enwedig aelodau fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

**(b) Y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r cynllun?**

Er mwyn sicrhau bod y drefn hon yn un effeithiol mae'n hanfodol bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau yn un agored a heriol. Bydd angen i'r holl randdeiliaid fod yn hyblyg wrth ymateb i'r newidiadau lleol a chenedlaethol sydd yn rhwym o ddigwydd dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'n rhesymol disgwyl i Lywodraeth Cymru herio a chwestiynu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targed deng mlynedd a chynnydd yn gyffredinol yn erbyn pob un o'r saith deilliant arfaethedig ac y bydd angen i awdurdodau ddiwygio eu cynlluniau pan fo angen iddynt wneud hynny. Mae'r disgwyl i'r awdurdodau wneud hyn o'u gwirfodd yn rhesymol ond bydd angen monitro trylwyredd y broses yn fanwl iawn.

Ystyrir bod y cynnig hwn (3.27 yn benodol) yn amwys. Nid yw'n glir a yw'n bosib i Lywodraeth Cymru **fynnu** bod awdurdodau yn diwygio eu cynlluniau ai peidio mewn achosion penodol – *'Byddai adborth LIC yn dilyn adroddiad blynyddol yr awdurdod lleol yn dylanwadu'n gryf ar benderfyniad awdurdod lleol i gyflwyno Cynllun diwygiedig'*. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn nodi hyn yn glir, mae'n bosib na fydd rhai awdurdodau yn dewis diwygio. Mae'r angen i ddiwygio'r Cynllun yn debyg o godi, er enghraifft, wrth ymateb i newidiadau demograffig arwyddocaol.

**Cwestiwn 5** – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar rheoliadau drafft 2019 a'r canllawiau statudol?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Estyn yn parhau i gael ei gynnwys fel ymgynghorai statudol wrth ddatblygu GCSGau awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 6** – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y costau a amlinellir ar gyfer yr opsiynau neu unrhyw sylwadau ar y manteision a'r anfanteision a nodwyd ar gyfer y naill opsiwn a'r llall?

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn wedi ystyried y ddau opsiwn ac yn cytuno gyda'r casgliad i argymell Opsiwn 2 (Cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol mewn Addysg (Cymru) 2019. Cytunwn mai prif fantais cyflwyno'r rheoliadau a gynigir yw eu bod yn ymateb yn

gadarn i'r heriau a gyflwynir gan strategaeth *Cymraeg 2050:miliwn o siaradwyr*. Mae'n cydnabod swyddogaeth greiddiol y byd addysg wrth geisio gwireddu'r nod hwn a'r modd y mae angen trawsnewid y sector addysg mewn rhai ffyrdd penodol. Nodwyd uchod bod manteision o newid y cynlluniau o gylch tair blynedd i ddeng mlynedd. Nid yw cyfran y disgyblion sydd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu yn ddigon cyflym yn y cyfnod diweddar. Mae dileu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu'r galw ymhlith rheini am addysg Gymraeg yn golygu y bydd rhaid i'r awdurdodau bennu eu targedau eu hunain gan arwain at ffyrdd mwy rhagweithiol o gynllunio a fydd yn gyson â nodau strategol *Cymraeg 2050*.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

**Sylwadau ategol**

Yn gyffredinol mae Estyn yn cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith ac y caiff y cynigion effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Yn benodol mae'r cynigion gogyfer â diwygio Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Cytunwn y gallai'r effeithiau mwyaf cadarnhaol fod ar y canlynol:

- **Hawliau plant**: gallai mwy o blant a phobl ifanc feithrin eu medrau iaith Gymraeg yn ystod eu haddysg orfodol. Byddent yn elwa ar fanteision dwyieithrwydd a dylai hyn yn ei dro eu cymhwyso at amrywiaeth eang o swyddi a chryfhau eu cyfleoedd i lwyddo ar ôl gadael addysg. Dylai fod gan bob plentyn yr hawl i fynediad ystyrlon i addysg Gymraeg yn ei gymuned ei hun a hynny mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg mewn modd llai ffafriol na'r Saesneg.

- **Cydraddoldeb**: gallai'r cynnig hwn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a gydag amser dylai'r ddarpariaeth addysgol hon arwain at gynnydd ym medrau dwyieithog plant a phobl ifanc. Dylai hyn yn ei dro gael effaith gadarnhaol arnynt o ran yr agenda trechu tlodi trwy roi medrau iaith, gydol-oes iddynt y gallent eu cymhwyso yn y gweithle - cyfleoedd na fyddai ar gael iddynt fel arall.

- **Y Gymraeg**: gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar lesiant ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg. Mae *Cymraeg 2050* yn gofyn am gymorth yr awdurdodau lleol i ymateb i'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg ac mae'r system addysg yn allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod hwnnw. Gallai'r deilliannau ar gyfer y Gymraeg o fewn y system addysg wella o ganlyniad i'r

cynnig hwn a’r agweddau canlynol yn benodol, sef, gwella’r broses o gynllunio’r ddarpariaeth, codi safonau addysg cyfrwng Cymraeg a gwella ansawdd addysgu’r Gymraeg, fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu pynciau eraill.

**Cwestiwn 8** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Mae’r rheoliadau hyn yn cysylltu’n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr*. Mae gan y system addysg statudol yng Nghymru gyfraniad pwysig i’w wneud er mwyn cyflawni’r nod hwnnw ac mae cynlluniau awdurdodau lleol Cymru yn rhan greiddiol o’r broses honno.

Mae Estyn yn cytuno y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed. Serch hynny, gellid cryfhau’r rheoliadau a’r canllawiau trwy bwysleisio’r angen i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg Gymraeg wrth galon cymunedau lleol yn gynyddol ac yn hygyrch i bawb ni waeth beth fo’u cefndir ieithyddol. Nid yw’r twf wedi bod yn ddigon cyflym yn y cyfnod diweddar ac nid yw pob awdurdod wedi ystyried yn ddigon gofalus gyfrwng iaith yr addysg wrth agor ysgolion newydd ac/neu wrth amcangyfrif twf mewn poblogaeth yn dilyn adeiladu stadau newydd o dai. Yn yr un modd, dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio’n fwriadus i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith Gymraeg yn barhaus trwy gydol eu haddysg. Nid yw hyn yn digwydd mewn llawer o ysgolion uwchradd ac nid yw awdurdodau’n cynllunio ddigon pwrpasol ar y cyd â sefydliadau addysg bellach er mwyn cyfrannu at y broses hon wrth i ddysgwyr adael yr ysgol yn 16 oed.

Wrth gynnig canllawiau i awdurdodau lleol dros y ddegawd nesaf dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu’r holl agweddau sydd yn dylanwadu ar addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd. Er enghraifft, byddai Estyn yn cefnogi camau i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer addysg drochi ar draws Cymru. Mae gan ychydig o awdurdodau lleol drefniadaeth effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy’n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog heb fawr ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd i garfannau newydd o ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt fedru cyfranogi’n llawn yn eu haddysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir.

Mae Estyn yn croesawu'r pwyslais a geir yn y canllawiau ar y cyfraniad pwysig sydd gan ysgolion cyfrwng Saesneg ei wneud at wireddu'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Serch hynny, teimlwn bod angen sefydlu consensws cenedlaethol ar ddulliau addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer caffael y Gymraeg fel ail iaith. Yn ei dro, dylai'r consensws hwn lywio dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae gwella medrau ieithyddol a dulliau addysgu athrawon Cymraeg yn allweddol er mwyn sicrhau bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyfrannu'n briodol i darged miliwn o siaradwyr 2050 a bod dysgwyr o bob cefndir yn datblygu medrau cryf yn y Gymraeg.

**Cwestiwn 9** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig [neu'r opsiynau, neu'r Cynllun arfaethedig, neu'r camau gweithredu arfaethedig]:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Teimlwn fod unrhyw newidiadau y cyfeirir atynt yn ein hatebion i gwestiynau blaenorol yn debygol o gryfhau'r polisi arfaethedig.

Rydym o'r farn bod y polisi'n debygol o ehangu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r dewis sydd ar gael i rieni wrth iddynt ddewis cyfrwng iaith addysg eu plant.

Yn ogystal, dylai'r polisi sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gadarn. O ganlyniad, dylai fod mwy o adnoddau dynol yng ngweithlu'r dyfodol a fydd yn medru cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ystyrlon sydd o'r un safon â'r rhai sydd ar gael yn Saesneg.

Dim ond drwy gynyddu niferoedd y sawl sy'n medru'r iaith ac yn ddigon hyderus i'w defnyddio mewn modd rhagweithiol a naturiol y bydd modd sicrhau cymdeithas wirioneddol ddwyieithog sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfartaledd ieithyddol.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Sylwadau ategol**